



Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 24



Awst 2020

Dyma'r fersiwn hawdd ei deall o **Gynllun Cydraddoldeb Strategol** 2020 - 2024 Cyngor Sir Penfro.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Mae hon yn fersiwn hawdd ei deall. Mae'r geiriau a'u hystyron yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Mae'n bosibl y bydd angen cymorth arnoch i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Gall rhai geiriau fod yn anodd eu deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen las fras** ac wedi'u hegluro mewn blwch o dan y gair.

Os yw unrhyw un o'r geiriau yn cael eu defnyddio yn hwyrach ymlaen yn y canllaw, maent yn ymddangos mewn **ysgrifen las arferol**. Os ydych yn gweld geiriau mewn **ysgrifen las arferol** gallwch edrych i weld beth yw eu hystyron yn **Geiriau anodd ar dudalen 18**.



Lle mae'r ddogfen hon yn dweud 'ni', mae hyn yn golygu Cyngor Sir Penfro.

Os ydych eisiau mwy o wybodaeth ynglŷn â'r ddogfen hon, cysylltwch â:



Sarah Worby

Swyddog Ymchwil a Pholisi Corfforaethol

Cyngor Sir Penfro

sarah.worby@pembrokeshire.gov.uk

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan ein Hyrwyddwr Anableddau Dysgu gan ddefnyddio gwefan Photosymbols.

Cynnwys

	Tudalen
Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon	2
Pam fod gan Cyngor Sir Penfro Gynllun Cydraddoldeb Strategol?	4
Pwy yw'r Bobl Warchodedig?	5
Sut wnaethom benderfynu beth i feddwl amdano a beth i'w wella ar gyfer pobl warchodedig?	7
Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol	8
Gwella sut rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau yn addas ar gyfer pobl warchodedig .	10
Gwella'r broses o helpu pobl warchodedig i ddod o hyd i waith â thâl.	11
Gwneud addysg yn decach	13
Ei gwneud hi'n haws i bobl warchodedig fynd allan i'r awyr agored a chymryd rhan ym mywyd y gymuned.	14
Parhau i sicrhau bod pobl warchodedig yn gallu cael mynediad at ein gwasanaethau wrth i fwy gael eu darparu ar-lein.	14

Ei gwneud hi'n haws i **bobl warchodedig** gael tai addas. 15

Cefnogi grwpiau gwahanol o bobl i gymysgu'n dda gyda'i gilydd. 16

Geiriau anodd 18

Pam bod gan Cyngor Sir Penfro Gynllun Cydraddoldeb Strategol?



Mae'n rhaid i Cyngor Sir Penfro sicrhau bod ei wasanaethau yn bodloni'r rheolau a amlinellwyd yn y **Ddeddf Cydraddoldeb**.



Mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydym yn **gwahaniaethu** yn erbyn pobl.



Mae'r **Ddeddf Cydraddoldeb** yn sicrhau bod pobl yn y DU yn cael eu trin yn deg, nad ydynt yn profi **gwahaniaethu** a'u bod yn derbyn yr un cyfleoedd mewn bywyd.



Mae **gwahaniaethu** yn golygu bod rhywun yn eich trin yn wael neu'n annheg gan eu bod yn meddwl eich bod yn wahanol.



Mae'n rhaid i ni sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfleoedd.



Mae'n rhaid i ni sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan yn yr hyn maent yn dymuno cyfranogi ynddo.



Mae'n rhaid i ni sicrhau bod pawb yn teimlo'n ddiogel.



Byddwn yn sicrhau na wahaniaethir dynion a menywod ar sail eu rhywedd.

Pwy yw'r bobl warchodedig?



Mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu trin yn llai teg nag eraill. Gallwn eu galw nhw'n **bobl warchodedig**.



Pobl o bob oed - pobl ifanc a phobl hŷn.



Pobl sydd ag anabledd gan gynnwys pobl â
phroblemau iechyd meddwl



Pobl sy'n edrych ar ôl eraill ond sydd
ddim yn cael eu talu i wneud hynny.
Gelwir y rhain yn ofalwyr.



Pobl sy'n dod o wledydd eraill.



Pobl sydd â chrefydd neu gredoau
gwahanol.



Pobl sydd wedi priodi a phobl sydd heb
briodi.



Pobl sy'n cael babi neu sydd wedi cael
babi yn y chwe mis diwethaf.



Menywod lesbiaidd - menywod sy'n cael
eu hatynnu at fenywod eraill.



Dynion hoyw - dynion sy'n cael eu hatynnu at ddynion eraill.



Dynion a menywod deurywiol - pobl sy'n cael eu hatynnu at ddynion a menywod.



Pobl drawsrywiol - pobl sydd wedi cael eu geni fel un rhywedd ond yn teimlo fel eu bod yn rhywedd arall.

Sut rydym yn penderfynu beth rydym yn ei wneud?




Gofynnem i **gyrff cyhoeddus** a phobl eraill sy'n byw yn Sir Benfro i ddweud wrthym beth all Cyngor Sir Penfro ei wneud yn well i fodloni'r **Ddeddf Cydraddoldeb**.



Edrychom ar ddogfennau ynglŷn â bywydau **pobl warchodedig**.



Dangosodd y wybodaeth i ni fod bywyd yn anoddach ar gyfer llawer o **bobl warchodedig**.



Mae gwybodaeth hefyd yn dangos bod COVID-19 wedi gwneud pethau hyd yn oed yn anoddach ar gyfer rhai **pobl warchodedig**.

Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol



Mae'r Gyfraith Cydraddoldeb yn dweud bod rhaid i ni fod â chynllun. Gelwir y cynllun yn y **Cynllun Cydraddoldeb Strategol**



Mae cael cynllun yn ein helpu i fesur pa mor dda rydym yn gwneud.




Mae'r cynllun yn ein helpu i weld beth sydd angen i ni ei wneud yn well.



Mae'r cynllun ar gyfer y pedair blynedd nesaf.



Mae'n dweud y byddwn yn gwella sut rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau yn addas ar gyfer **pobl warchodedig**.



Mae'n dweud y byddwn yn helpu **pobl warchodedig** i ddod o hyd i waith â thâl.



Mae'n dweud y byddwn yn gwneud addysg yn decach.



Mae'n dweud y byddwn yn ei gwneud hi'n haws i **pobl warchodedig** gymryd rhan ym mywyd y gymuned.




Mae'n dweud y byddwn yn sicrhau bod **pobl warchodedig** yn gallu cael mynediad at ein gwasanaethau ar-lein.



Mae'n dweud y byddwn yn ei gwneud hi'n haws i gael tai addas.



Mae'n dweud y byddwn yn annog pobl i gymysgu'n dda gyda'i gilydd.



Gwneud ein gwasanaethau'n well
ar gyfer **pobl warchodedig**.



Mae'n rhaid i ni sefydlu grŵp i sicrhau ein
bod yn gwneud y pethau yn y cynllun.



Byddwn yn ceisio cael mwy o **gynghorwyr**
sydd yn **bobl warchodedig**.



Cynghorwyr yw pobl sy'n cael eu hethol i
gynrychioli'r bobl sy'n byw yn eu
cymunedau. Maent yn gwneud
penderfyniadau ynglŷn â gwasanaethau.



Byddwn yn gweithio gyda **chynghorwyr** a
phobl sydd eisiau bod yn **gynghorwyr** i'w
helpu i ddeall anghenion **pobl warchodedig**.




Byddwn yn sicrhau bod **cynghorwyr** yn
cynnwys **pobl warchodedig** wrth iddynt
wneud penderfyniadau pwysig.



Byddwn yn darganfod a oes unrhyw gerfluniau neu enwau adeiladau yn Sir Benfro sy'n gysylltiedig â [gwahaniaethu](#).



Byddwn yn cytuno ar beth i'w wneud ynglŷn ag unrhyw rai rydym yn eu darganfod.



Gwella'r broses o helpu [pobl warchodedig](#) i ddod o hyd i waith â thâl.



Byddwn yn rhoi gwybodaeth bob blwyddyn ynglŷn â faint o [pobl warchodedig](#) sy'n gweithio i ni.



Byddwn yn darparu hyfforddiant ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda ni fel eu bod yn deall anghenion [pobl warchodedig](#).



Byddwn yn edrych ar sut y gallwn gael mwy o fenywod yn gweithio gyda ni mewn swyddi uwch.




Byddwn yn sicrhau bod pawb sy'n gwneud cais am swydd yn cael cyfle teg ac yn cael y cymorth cywir.



Byddwn yn gwneud yn siŵr nad ydym yn **gwahaniaethu** yn erbyn unrhyw un sy'n gweithio gyda ni.



Byddwn yn sicrhau bod y bobl sy'n gweithio gyda ni yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael i helpu gyda chostau gofal plant.



Byddwn yn cynnal prosiectau i helpu **pobl warchodedig** i ddod o hyd i waith â thâl sy'n gywir ar eu cyfer.



Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau eraill sy'n gweithio ar ein cyfer i sicrhau nad ydynt yn **gwahaniaethu** yn erbyn y bobl maent yn eu cyflogi.



Gwneud addysg yn decach



Byddwn yn cefnogi plant o bob gallu i gyflawni gymaint ag y maent yn gallu.



Byddwn yn sicrhau bod plant sy'n **bobl warchodedig** yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

Mae hyn yn cynnwys plant o deuluoedd ar incwm isel.



Byddwn yn gostwng nifer y plant sydd ddim yn cael mynd i'r ysgol.



Byddwn yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynd i'r ysgol am yr un faint o amser.



Byddwn yn darparu cymorth ar gyfer plant sy'n 16 i 18 oed ond sydd angen cymorth ychwanegol i gael hyfforddiant a gwaith.



Byddwn yn ei gwneud hi'n haws
i **pobl warchodedig** gymryd rhan
ym mywyd y gymuned.



Byddwn yn gwneud trafnidiaeth
gyhoeddus a chymunedol yn haws i'w
defnyddio.



Byddwn yn darparu toiledau cyhoeddus lle
mae eu hangen fwyaf.



Byddwn yn darparu cymorth yn y gymuned
sy'n diwallu anghenion gofal cymdeithasol
pobl warchodedig.



Sicrhau bod **pobl warchodedig**
yn gallu cael mynediad at ein
gwasanaethau ar-lein.



Byddwn yn gwella cysylltiadau rhyngrwyd
yn Sir Benfro.



Byddwn yn rhoi cefnogaeth a chymorth fel y gall pawb fynd ar-lein.



Byddwn yn darparu ffyrdd eraill i bobl siarad gyda ni os na allant ddefnyddio'r rhynggrwyd.



Byddwn yn sicrhau y bydd **pobl warchodedig** yn gallu siarad gyda ni wyneb yn wyneb.



Byddwn yn ei gwneud hi'n haws i **pobl warchodedig** gael tai addas



Byddwn yn cynyddu nifer y tai y gall pobl fforddio byw ynddynt.



Byddwn yn cynnwys **pobl warchodedig** mewn penderfyniadau ynglŷn â thai.
Byddwn yn dod o hyd i ragor o wybodaeth ynglŷn â'u hanghenion gwahanol.



Byddwn yn addasu tai i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion **pobl warchodedig**.

Byddwn yn gwneud newidiadau yn gynt i dai ar gyfer pobl sydd ag anabledd.



Byddwn yn lleihau nifer y bobl ifanc sydd heb gartref.




Cefnogi grwpiau gwahanol o bobl i gymysgu'n dda gyda'i gilydd.



Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gwybod lle i fynd am gymorth os oes ganddynt broblemau gyda **throseddau casineb, cam-drin domestig neu drais rhywiol**.



Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gwybod am fuddiannau ac anghenion **pobl warchodedig**.



Byddwn yn sicrhau bod ein hymateb i COVID-19 yn helpu **pobl warchodedig**.



Byddwn yn sicrhau bod **pobl warchodedig** yn gwybod am y newidiadau a fydd yn digwydd nawr fod Prydain wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd.



Byddwn yn dod o hyd i ragor o wybodaeth ynglŷn â beth sy'n gwneud i **bobl warchodedig** deimlo'n ddiogel neu'n anniogel yn eu cymunedau.

Geiriau anodd

Dynion a menywod deurywiol

Dynion a menywod deurywiol yw pobl sy'n cael eu hatynnu at ddynion a menywod.

Cynghorwyr

Cynghorwyr yw pobl sy'n cael eu hethol i gynrychioli'r bobl sy'n byw yn eu cymunedau. Maent yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

Gwahaniaethu

Mae gwahaniaethu yn golygu bod rhywun yn eich trin yn wael neu'n annheg gan eu bod yn meddwl eich bod yn wahanol.

Cam-drin Domestig

Cam-drin domestig yw pan mae rhywun rydych yn byw gyda nhw yn eich trin yn wael ac yn eich brifo.

Deddf Cydraddoldeb

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn gyfraith i sicrhau bod pobl yn y DU:

- yn cael eu trin yn deg
- ddim yn cael eu gwahaniaethu ar unrhyw sail
- gyda'r un cyfleoedd mewn bywyd.

Amcanion cydraddoldeb

Amcanion cydraddoldeb yw'r pethau pwysig i wneud Cymru yn lle tecach i fyw ynddi.

Dynion hoyw

Dynion hoyw yw dynion sy'n cael eu hatynnu at ddynion eraill.

Troseddau casineb

Troseddau casineb yw pan mae dioddefwr yn meddwl bod trosedd wedi digwydd iddynt oherwydd pwy ydynt.

Menywod lesbiaidd

Menywod lesbiaidd yw menywod sy'n cael eu hatynnu at fenywod eraill.

Problemau iechyd meddwl

Pobl sydd angen cymorth gyda'u meddyliau neu eu hemosiynau.

Pobl warchodedig

Mae rhai grwpiau o bobl yn cael eu trin yn llai teg nag eraill. Rydym wedi eu galw yn bobl warchodedig.

Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn cynnal gwasanaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru ond nid ydynt yn rhan o'r llywodraeth.

Trais rhywiol

Trais rhywiol yw pan mae rhywun yn eich brifo drwy eich cyffwrdd ar ran bersonol o'ch corff. Byddai hyn yn cynnwys treisio.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol wedi cael ei ysgrifennu i'n helpu i fesur sut rydym yn perfformio a phenderfynu beth arall sydd angen i ni ei wneud.

Pobl trawsrywiol

Pobl sydd wedi cael eu geni fel un rhywedd ond sy'n teimlo eu bod yn rhywedd arall. Er enghraifft, unigolyn sydd ag organau cenhedlu gwrywaidd ond sy'n teimlo fel ei fod yn fenywaidd neu unigolyn sydd ag organau cenhedlu benywaidd ond sy'n teimlo fel ei fod yn wrywaidd.